MAE EICH AGWEDD TUAG AT AWDURDOD YN BWYSIG I DDUW

Nodyn i'r siaradwr:
Helpa'r gynulleidfa i werthfawrogi bod y Goruwch Awdurdod, Jehofa Dduw, eisiau inni barchu'r awdurdod y mae ef yn caniatáu i fodoli. Mae rhaid inni ddangos parch drwy ein hagwedd a'n gweithredoedd

PAM PARCHU AWDURDOD? (5 mun.)

Mae diffyg parch tuag at awdurdod yn parhau i gynyddu yn ystod "y cyfnod olaf" (2Ti 3:1-3)

Yn aml mae 'na ddiffyg parch gan bobl tuag at unrhyw fath o awdurdod

Ar brydiau, mae'r fath amarch yn ymateb i gamddefnyddio awdurdod (Dia 28:15; 29:2; Pre 8:9)

Mae Gair Duw yn ein dysgu i barchu'r rhai sydd ag awdurdod droson ni **[Darllen Diarhebion 24:21]**

Mae cyfreithiau ac awdurdod yn cyfrannu at heddwch a threfn (1Co 14:33, 40; *lv* 39-40 ¶9-10)

DANGOSWCH BARCH TUAG AT AWDURDOD YN Y TEULU (6 mun.)

Sefydlodd Jehofa'r drefn deuluol er lles pob aelod o'r teulu (Eff 3:14, 15)

Gosododd Iesu esiampl berffaith ar gyfer gwŷr, gwragedd, a phlant

Rhaid i ŵr Cristnogol anrhydeddu ei wraig a'i charu (Eff 5:25-29; 1Pe 3:7; *w09*-E 7/15 8 ¶4-7)

Mae ef yn aberthu er gyfer ei deulu ac yn eu hyfforddi yn ysbrydol

Mae rhaid i wraig Gristnogol ddangos parch dwfn tuag at ei gŵr (Eff 5:24, 33; *w09*-E 7/15 9 ¶8-10)

Mae ganddi hi awdurdod hefyd, ond mae hi'n cydweithio ac yn gefnogol (Dia 1:8)

Mae plant ufudd yn plesio Jehofa a'u rhieni (Dia 23:15, 24, 25; Lc 2:51; *w09*-E 7/15 11 ¶16-18)

DANGOSWCH BARCH TUAG AT "AWDURDOD Y LLYWODRAETH" (6 mun.)

Mae Jehofa yn gofyn inni barchu awdurdod y llywodraeth **[Darllen Rhufeiniaid 13:1, 2]** (*w10*-E 1/15 24 ¶3; *lv* 44 ¶18)

Mae'r awdurdodau hyn yn bodoli i geisio rhwystro troseddu ac anhrefn (Rhu 13:3, 4)

Dylen ni ufuddhau i "awdurdod y llywodraeth" o achos ein cydwybod (Rhu 13:5)

Cawn fuddion eraill oddi wrth y gweision cyhoeddus hyn (Rhu 13:6, 7; *w11*-E 9/1 22 ¶2-3)

Mae dangos parch dyledus tuag at swyddogion y llywodraeth yn dod â chlod i Dduw (Mth 5:16; *lv* 45 ¶19-20)

DANGOSWCH BARCH TUAG AT Y GORUWCH AWDURDOD (8 mun.)

Jehofa Dduw yw'r Awdurdod Goruchaf (Sal 83:18)

Mae'r ffordd y mae'n defnyddio ei awdurdod wastad y ffordd orau ar gyfer ei ddeiliaid (De 10:17, 18)

Mae'n rhaid ufuddhau i Jehofa cyn ufuddhau i awdurdod arall (Mth 22:21)

Pan gawn ein gorchymyn i wneud yr hyn mae Duw wedi ei wahardd neu pan gawn ein gorchymyn i beidio â gwneud yr hyn y mae Duw yn ei ofyn gennyn ni, mae gweision Jehofa yn gwrthod ufuddhau (Ex 20:4, 5; Da 3:16-18; Mth 28:19, 20; Act 5:28, 29)

Hyd yn oed o dan y fath amgylchiadau, dangoswn barch tuag at yr awdurdodau seciwlar (1Pe 3:15; *ed*-E 20, blwch)

Dangoswn barch tuag at Jehofa drwy ildio i'r rhai sy'n arwain yn y gynulleidfa **[Darllen Hebreaid 13:17]**

Er bod henuriaid yn amherffaith, byddai gwrthryfela yn eu herbyn yn dangos amarch tuag at awdurdod Jehofa (Nu 16:1-3, 28-35; 26:9; *w12*-E 10/15 13-14 ¶4-8)

BYDD AWDURDOD JEHOFA YN AROS AM BYTH (5 mun.)

Mae Jehofa wedi sefydlu'r Deyrnas Feseianaidd gyda'i Fab yn Frenin arni (Dat 11:15)

Yn fuan bydd rheolaeth ddynol yn cael ei dileu (Da 2:44; Mth 6:9, 10; *kr*-E 8-9 ¶8-9)

Bydd y Deyrnas yn dod â heddwch a chyfiawnder i'r ddaear (Sal 72:7, 8, 12-14, 16; *kr*-E 26-27)

Bydd gan ddeiliaid y Deyrnas gymaint o barch tuag at awdurdod Jehofa na fydd angen heddlu yn y byd newydd (*g02*-E 7/8 12)

Ar ddiwedd Teyrnasiad y Mil Blynyddoedd, bydd Crist yn rhoi'r Deyrnas drosodd i Jehofa (1Co 15:28)

Os dysgwn sut i ildio i awdurdod Jehofa nawr, cawn fwynhau byw o dan deyrnasiad adfywiol Jehofa am byth (Sal 37:27-29)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]

© 2017 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania